Cymdeithas **Cyfieithwyr Cymru**

# Llawlyfr

## Arholiadau Aelodaeth Testun

### HYDREF 2025

**Dydd Sadwrn, 4 Hydref 2025**

Y dyddiad cau i gofrestru fydd dydd Gwener, 12 Medi 2025, am 2:00pm

Nifer cyfyngedig o lefydd ac felly **y cyntaf i'r felin...**

**Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**
Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG

01248 371 839
swyddfa@cyfieithwyr.cymru

**www.cyfieithwyr.cymru**

**@cyfieithwyr**

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Cynnwys | 2 |
| 1. | Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru | 3 |
| 2. | Cyflawn ynteu Sylfaenol: y diffiniadau | 4 |
| 3. | Yr Arholiadau Aelodaeth Testun | 5 |
| 4. | Yr arholiadau ar lefel Aelodaeth Gyflawn | 6 |
| 5. | Yr arholiadau ar lefel Aelodaeth Sylfaenol | 9 |
| 6. | Cofrestru a thalu | 12 |
| 7. | Cynghorion i ymgeiswyr | 15 |
| 8. | Y trefniadau ar ddiwrnod yr arholiad | 16 |
| 9. | Beth sy'n digwydd ar ôl yr arholiad | 21 |
| 10. | Aelodaeth o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru | 25 |


### Llawlyfr Arholiadau Aelodaeth Testun Hydref 2025 – ei nod a'i fwriad

Bwriad y llawlyfr hwn yw cyflwyno'r holl wybodaeth am yr Arholiadau Aelodaeth Testun a gaiff eu cynnal ar 4 Hydref 2025.

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys yr atebion i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau am yr arholiadau hyn: cofrestru, diwrnod yr arholiadau ei hun, marcio'r gwaith, cyhoeddi'r canlyniadau, a'r hyn sy'n digwydd wedyn. Rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gofrestru.

**Gweinyddir yr Arholiadau Aelodaeth Testun gan Rheolwr Gweinyddol y Gymdeithas. Dylid cyfeirio pob ymholiad i swyddfa@cyfieithwyr.cymru**

*Roedd y wybodaeth yn gywir adeg cyhoeddi'r llawlyfr hwn ar 4 Awst 2025.*

## 1. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol. Hi yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg i/o'r Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, a bu'n allweddol wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP). Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod ohoni. Dim ond unigolion all fod yn aelodau o'r Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg i/o'r Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg i/o'r Saesneg, gostwng nifer yr achosion lle gall unrhyw un ei (g)alw ei hun yn gyfieithydd heb hyfforddiant priodol, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £1.9 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg.

I gael gwybod rhagor am weithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas, ewch i'r wefan: https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/

**Caiff y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.**

## 2. Cyflawn ynteu Sylfaenol: y diffiniadau

Cyn cofrestru ar gyfer yr arholiadau, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn sylweddoli fod gwahaniaeth mawr rhwng y lefelau Cyflawn a Sylfaenol, a bod gofynion yr arholiadau ar y ddwy lefel yn wahanol i'w gilydd.

### Aelodaeth Gyflawn v Aelodaeth Sylfaenol

| Aelodaeth Gyflawn | Aelodaeth Sylfaenol |
|---|---|
| Gwobrwyo gwaith sy'n barod i'w gyhoeddi heb olygu pellach. | Gwobrwyo addewid, gan gofio bod peth golygu'n dderbyniol. |
| Er bod rhaid cofio mai o dan amodau arholiad mae'r gwaith wedi'i gynhyrchu, ni ddisgwylir gweld gwallau difrifol. Serch hynny, gellir maddau ambell lithriad bach. | Mae modd maddau rhai gwallau, cyhyd ag nad ydynt yn rhy ddifrifol.<br><br>Mae modd maddau rhai llithriadau, cyhyd ag nad ydynt yn rhy niferus. |
| Mae dyfarnu Aelodaeth Gyflawn yn gyfystyr â rhoi trwydded broffesiynol i fasnachu fel cyfieithydd. | Mae disgwyl bydd Aelodau Sylfaenol yn parhau i gael eu goruchwylio a'u hyfforddi. |
| Cewch ragor o wybdaeth am yr arholiadau ar lefel Aelodaeth Sylfaenol ym mhennod 5. | Cewch ragor o wybdaeth am yr arholiadau ar lefel Aelodaeth Gyflawn ym mhennod 4. |

# 3. Yr Arholiadau Aelodaeth Testun

## 3.1 Yr arholiadau

Bwriad yr Arholiadau Aelodaeth Testun yw rhoi'r cyfle i bobl ymuno â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Dim ond trwy lwyddo yn arholiadau'r Gymdeithas y gellir ennill aelodaeth ohoni.

Ar ddiwrnod yr arholiad cynhelir dau arholiad 2 awr a 5 munud yr un, fel a ganlyn:

Papur 1: cyfieithu i'r Gymraeg, a gaiff ei gynnal yn y bore (10:30am)
Papur 2: cyfieithu i'r Saesneg, a gaiff ei gynnal yn y prynhawn (1:45pm)

Yn yr arholiadau am **Aelodaeth Gyflawn** rhaid cyfieithu dau ddarn o ryw 300 gair yr un, yn ogystal â chyfieithu darn o ryw 300 gair yn ystod yr wythnos y cynhelir yr arholiadau ynddi.

Yn yr arholiadau am **Aelodaeth Sylfaenol** rhaid cyfieithu dau ddarn o ryw 250 gair yr un.

Gall ymgeisydd ddewis sefyll un arholiad i un iaith yn unig neu sefyll y ddau arholiad.

Cyn cofrestru mae'n bwysig fod ymgeiswyr yn deall fod gwahaniaeth mawr rhwng Aelodaeth Gyflawn ac Aelodaeth Sylfaenol, a bod gofynion yr arholiadau ar y lefel Gyflawn yn wahanol iawn i'r rhai ar y lefel Sylfaenol.

Fel rhan o'u paratoadau i sefyll arholiad(au), dylai ymgeiswyr ddarllen yr Adroddiadau Cyffredinol ar arholiadau'r Gymdeithas yn y gorffennol sydd i'w cael ar y dudalen 'Hen Bapurau Arholiad', https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/ymaelodi/hen-bapurau-arholiad, ar wefan y Gymdeithas. Gweler hefyd pennod 7 isod.

## 3.2 Y canolfannau arholi

Cynhelir yr Arholiadau Aelodaeth Testun yn y canolfannau arholi hyn:

Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth, SY23 3FL
Caerdydd: Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Cyncoed), CF23 6XD
Glynllifon, ger Caernarfon: Coleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon, LL54 5DU

## 3.3 Y taliadau am sefyll arholiad

Rhestrir y taliadau am sefyll arholiad ym mhwynt 6.3 isod.

## 3.4 Hawliau'r Gymdeithas

Bydd papur arholiad pob ymgeisydd yn eiddo i'r Gymdeithas. Ceidw'r Gymdeithas yr hawl i ddefnyddio gwaith unrhyw ymgeisydd, yn ddienw, at ddibenion hyfforddi.

# 4. Yr arholiadau ar lefel aelodaeth Gyflawn

## 4.1 Y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn

Mae safon Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar y cyfieithydd angen unrhyw oruchwyliaeth. Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu cyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro. Awgrymir i gyfieithydd sydd â thair blynedd o brofiad o gyfieithu'n amser llawn, neu â phrofiad cyfatebol o gyfieithu'n rhan-amser, ymgeisio am Aelodaeth Gyflawn. Nid oes rhaid bod yn Aelod Sylfaenol cyn ymgeisio.

## 4.2 Yr arholiadau ar y lefel Gyflawn

Yn wahanol i'r lefel Sylfaenol pan fydd addewid yn bwysig, mae'r drefn Gyflawn yn pwysleisio lefel broffesiynol uwch. Mae'r arholiad yn cynnig cyfle i ymgeiswyr ddangos eu doniau fel cyfieithwyr, yn enwedig yn y darn 'gwaith cartref' y mae'n rhaid ei wneud yn ystod yr wythnos y cynhelir yr arholiad ynddi.

Mae'r darnau a gaiff eu dewis ar y lefel hon yn fwriadol heriol, gan fod angen i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i ymdopi â chyfieithiadau o wahanol destunau, a hynny gan gynnal y safon broffesiynol angenrheidiol.

Hyd yn oed yn yr arholiadau ar y lefel Gyflawn, gwelir gwallau ystyr yn amharu ar y gwaith a gyflwynir ac yn atal sawl ymgeisydd rhag cyrraedd y safon ofynnol. Rhaid i ymgeiswyr ar y lefel hon sicrhau eu bod wedi cyfleu union ystyr y gwreiddiol yn gywir, heb hepgor dim nac ychwanegu'n ddiangen. Wrth wneud hynny, rhaid sicrhau hefyd eu bod yn mynd o dan groen y darn, fel petai, ac yn gweld y tu hwnt i'r geiriau unigol, gan gyfleu neges a naws y gwreiddiol yn llwyddiannus yn yr iaith darged. Mae hyn yn galw am feistrolaeth ar wahanol gyweiriau a chystrawennau'r iaith, gan fod rhaid i'r cyfieithiad a gyflwynir ddarllen fel darn o Gymraeg neu Saesneg naturiol, rhywbeth na ellir cyfaddawdu yn ei gylch ar y lefel Gyflawn.

Rhaid pwysleisio hefyd na chaiff mân wallau esgeulus, megis gwallau teipio, eu goddef ar y lefel hon. Mae gwirio a golygu'r gwaith yn fanwl cyn ei gyflwyno yn hanfodol.

## 4.3 Cyflwyno geirda

Rhaid i unrhyw ymgeisydd yn yr arholiadau Cyflawn nad yw'n aelod o'r Gymdeithas neu'n gweithio i Gwmni Cydnabyddedig neu i Sefydliad Cydnabyddedig gael geirda* gan Aelod Cyflawn o'r Gymdeithas yn tystio fod ganddo'r profiad, y cefndir a'r gallu i sefyll yr arholiad Cyflawn. Rhaid i'r geirda hwnnw fod ar sail iaith darged y papur arholiad, h.y. rhaid cael Aelod Cyflawn i'r Gymraeg i roi geirda dros ymgeisydd sy'n sefyll papur i'r Gymraeg, a *vice versa*.

Os yw ymgeisydd wedi llwyddo yn yr e-weithdy cyfieithu (bach neu arferol) ar y lefel Gyflawn yn y 12 mis cyn sefyll yr arholiad, does dim rhaid iddo gyflwyno geirda yn y cyfeiriad y llwyddodd yn yr e-weithdy cyfieithu hwnnw.

Mae'r geirda'n rhan o'r drefn gofrestru. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd y mae gofyn iddo

gyflwyno geirda anfon y geirda gyda'i ffurflen gofrestru. Os nad yw'r ymgeisydd yn cyflwyno'r geirda erbyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ni fydd yn cael sefyll yr arholiad ar y lefel Gyflawn a chynigir iddo sefyll yr arholiad Sylfaenol cyfatebol neu gael ad-daliad o'r ffi.

* Os ydych yn ansicr a oes angen cyflwyno geirda, cysylltwch â'r Gymdeithas cyn gynted ag y gallwch.

### 4.4 Trefn yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefel Gyflawn

Bydd yr arholiad ar y lefel Gyflawn yn cynnwys:

- cyfieithu darn cyn diwrnod yr arholiadau
- sefyll yr arholiad ar ddiwrnod yr arholiadau

### 4.5 Cyfieithu darn cyn diwrnod yr arholiad

Rhoddir tridiau i ymgeiswyr ar y lefel Gyflawn gyfieithu darn o ryw 300 gair yn eu hamser eu hunain yn ystod yr wythnos y cynhelir yr arholiadau ynddi, yn unol â'r amserlen hon:

i) Caiff y darn ei e-bostio at bob ymgeisydd o swyddfa'r Gymdeithas cyn amser cinio ar y dydd Llun cyn yr arholiadau.

Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys cyfarwyddiadau ynghylch cyfieithu'r darn hwn. Bydd cyfarwyddyd clir y disgwylir mai gwaith yr ymgeisydd fydd y cyfieithiad a gaiff ei gyflwyno, ac ni chaniateir i'r gwaith gael ei wirio na'i brawf ddarllen gan neb arall. Yn wahanol i amodau'r arholiad, caiff ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau ar-lein.

ii) Rhaid i'r cyfieithiad gael ei e-bostio i'r swyddfa cyn 2:00pm ar y dydd Iau cyn yr arholiadau.

Os nad yw'r cyfieithiad yn cyrraedd y swyddfa erbyn yr amser hwn, ystyrir nad yw'r ymgeisydd am sefyll yr arholiad. Os digwydd hyn, bydd y Gymdeithas yn cadw hanner y ffi ac ad-delir yr hanner arall i'r ymgeisydd. Dylai ymgeiswyr, felly, neilltuo digon o amser yn ystod yr wythnos hon ar gyfer llunio'r cyfieithiad hwn.

Mae'r darn 'gwaith cartref' hwn yn gyfle pwysig i ymgeiswyr ddangos eu doniau fel cyfieithwyr. Diben y darn 'gwaith cartref', yn anad dim, yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu heb wynebu straen ystafell yr arholiad, a heb gael eu hamddifadu o'u ffynonellau arferol ar y we. Y disgwyl, felly, yw bydd y 'gwaith cartref' yn agos iawn at berffeithrwydd. Ni ellir maddau llithriadau esgeulus ynddo. Dyma gyfle i weld ymgeiswyr ar eu gorau a gobeithir y bydd pob ymgeisydd yn manteisio ar hynny, fel bod modd i'r gwaith a wnaed ymlaen llaw weithio o'u plaid os digwydd bod eu sgript arholiad ar y ffin rhwng llwyddo a methu.

### 4.6 Meini prawf yr arholiadau ar y lefel Gyflawn

Bydd ymgeisydd naill ai'n llwyddo neu'n methu'r Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefel Gyflawn. Ni chaiff graddau eu rhoi.

Wrth farcio'r gwaith a gyflwynir gan yr ymgeisydd, bydd y marcwyr yn edrych ar y gwaith yn ei gyfanrwydd ac yn ystyried a yw'r cyfieithiad yn darllen fel darn gwreiddiol yn hytrach na fel cyfieithiad. Defnyddir y pedair elfen gan y marcwyr fel sylfaen wrth ddod i'w dyfarniad, a rhoddir cydnabyddiaeth gyfartal am y nodweddion canlynol:

| | |
|---|---|
| **Ystyr** | **Ydych chi wedi deall y pwnc a chyfleu'r holl wybodaeth yn gywir?** Felly, wrth farcio'r sgript bydd y marcwyr am weld fod yr ymgeisydd wedi dangos gallu datblygedig o ran gafael ar y deunydd a'r darn; ac wedi cyfleu gwybodaeth yn llwyddiannus drwyddi draw. |
| **Cywair** | **Ydych chi wedi dewis y geiriau, y termau a'r priod-ddulliau addas i'r cyd-destun?** Felly, wrth farcio'r sgript bydd y marcwyr am weld fod yr ymgeisydd wedi dangos gallu datblygedig i adnabod, gwerthfawrogi ac arfer grym mynegiannol yr iaith mewn gwahanol gyd-destunau. |
| **Cystrawen** | **Ydych chi wedi trefnu a chydlynu'ch brawddegau yn ystyrlon a chrefftus?** Felly, wrth farcio'r sgript bydd y marcwyr am weld fod yr ymgeisydd wedi dangos gallu datblygedig wrth drafod y darn fel bod cyfluniad brawddegau, cysyllteiriau, a threfn y disgwrs oll yn llwyddiannus, a'r cyfieithiad yn darllen fel darn gwreiddiol. |
| **Cywirdeb** | **Ydych chi wedi rhoi sylw gofalus i sillafu, treiglo, morffoleg, cysylltnodau, atalnodi ac acenion?** Felly, wrth farcio'r sgript bydd y marcwyr am weld fod yr ymgeisydd wedi dangos gallu datblygedig o ran atalnodi, sillafu, gramadeg; ac nad oes llithriadau technegol sy'n amharu ar y darn. |

Disgwylir y bydd gwaith llwyddiannus yn cyflawni'r hyn a ofynnir yn y cwestiynau o safbwynt y pedair elfen.

## 4.7 Y llythyr dyfarniad

Bydd llythyr dyfarniad yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefel Gyflawn yn nodi a yw ymgeisydd yn llwyddo ynteu'n methu. Bydd hefyd yn cynnwys sylw cryno am y gwaith. Ni fydd y dyfarniad ar y lefel hon yn cynnwys graddau am y pedair elfen.

## 4.8 Adroddiad unigol

Gall unrhyw ymgeisydd, p'un a yw wedi llwyddo neu fethu, ofyn am adroddiad unigol ar ei bapur arholiad. Gweler pwynt 9.6 isod.

# 5. Yr arholiadau ar lefel Aelodaeth Sylfaenol

## 5.1 Y diffiniad o Aelodaeth Sylfaenol

Dyma'r lefel broffesiynol sylfaenol i'r rhai sy'n gwneud gwaith cyfieithu mewn amrywiaeth o feysydd cyffredinol ac yn trafod meysydd mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r safon gyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei yrfa ac yn gweithio dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol ers blwyddyn o leiaf. Disgwylir iddo fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth. Dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.

## 5.2 Yr arholiadau ar y lefel Sylfaenol

Yn yr arholiadau ar y lefel Sylfaenol, un gwendid cyffredin yw mai mewn un darn yn unig y mae sawl ymgeisydd yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig ac na allant gynnal y safon honno ar hyd y papur arholiad: mae'n hanfodol bwysig, felly, rhannu'r amser sydd ar gael yn gyfartal rhwng y ddau ddarn, a neilltuo digon o amser i ddarllen a mireinio, yn ogystal â chyfieithu.

Er y gwelir enghreifftiau niferus o gyfieithu llwyddiannus, effeithiol, sy'n cyfleu ystyr y gwreiddiol ac yn dangos gafael gadarn ar yr iaith darged yng ngwaith yr ymgeiswyr gorau, yn anffodus mae rhai gwendidau cyffredin i'w gweld hefyd o arholiad i arholiad, megis:

- methiant i ddarllen y gwreiddiol yn ofalus cyn mynd ati i gyfieithu
- methu cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, mewn modd sy'n naturiol i'r iaith darged
- cystrawennau trwsgl
- gormod o gyfieithu slafaidd a llafurus
- camgyfieithu
- camdreiglo a chamsillafu
- gwallau teipio esgeulus
- diffyg darllen y gwaith yn drylwyr a gofalus
- diffyg gwirio a phrawfddarllen

Dro ar ôl tro, mae'r Adroddiadau Cyffredinol yn tynnu sylw at fethiant ymgeiswyr i ddarllen eu gwaith yn ddigon gofalus cyn ei gyflwyno. Er bod modd maddau ambell lithriad bach o dan amodau arholiad, mae angen i gyfieithwyr feithrin y gallu i ddarllen eu gwaith yn fanwl, â llygad craff, er mwyn osgoi cyflwyno cyfieithiad sy'n cynnwys gwallau esgeulus.

## 5.3 Meini prawf yr arholiadau ar y lefel Sylfaenol

Rhoddir gradd i bob darn, i adlewyrchu'r safon a gyrhaeddwyd, a bydd y radd honno wedi'i seilio ar lwyddiant ymgeiswyr i ymdrin â'r nodweddion canlynol yn eu gwaith:

| | |
|---|---|
| Ystyr: | Dealltwriaeth o'r pwnc a chyfleu gwybodaeth yn gywir |
| Cywair: | Dewis addas o eirfa, priod-ddulliau, termau a chywair |
| Cystrawen: | Cydlyniad a threfniadaeth brawddegau |
| Cywirdeb: | Gramadeg, sillafu ac ati |

Mae'r diffiniad o'r gwahanol raddau fel a ganlyn:

**Gradd 1:** Cyfieithiad rhagorol, sy'n gywir, yn raenus, ac yn darllen fel darn gwreiddiol yn yr iaith darged. Efallai bydd rhai mân lithriadau, ond bydd y cyfanwaith yn cynnal safon uchel iawn, ac yn dangos gafael gadarn ar eirfa, gramadeg, cystrawen a phatrymau mynegiant yr iaith darged.

**Gradd 2:** Cyfieithiad da, sy'n gywir, yn raenus, ac yn darllen fel darn gwreiddiol yn yr iaith darged. Bydd y gwaith yn cynnwys rhai mân lithriadau, ac o bosib ambell wall mwy difrifol, ond bydd addewid amlwg yma, a gafael ar eirfa, gramadeg, cystrawen a phatrymau mynegiant yr iaith darged.

**Gradd 3:** Cyfieithiad da mewn mannau, gyda rhannau sy'n dangos gafael ar batrymau'r iaith darged, ond bydd gormod o wallau'n amharu ar y cyfanwaith, ac yn atal y cyfieithiad rhag bod yn llwyddiannus. Bydd rhai o'r gwallau yn dangos bod angen datblygu gwell gafael ar eirfa, gramadeg, cystrawen a phatrymau mynegiant yr iaith darged.

**Gradd 4:** Yr ymgeisydd wedi'i drechu gan y darn.

I lwyddo yn yr arholiadau rhaid cael Gradd 1 neu 2 yn y ddau ddarn.

Dyfernir Rhagoriaeth i ymgeiswyr sy'n ennill Gradd 1 yn y ddau ddarn.

## 5.4 Y llythyr dyfarniad

Bydd llythyr dyfarniad yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefel Sylfaenol yn nodi a yw ymgeisydd yn llwyddo ynteu'n methu. Bydd hefyd yn cynnwys y graddau a roddwyd am y ddau ddarn.

Bydd rhyddid i'r marcwyr gynnwys brawddeg yn egluro ymhellach mewn ambell sefyllfa lle nad oedd y radd ynddi'i hun yn adlewyrchiad cwbl deg o'r gwaith, e.e. petai ymgeisydd yn cyflwyno gwaith o safon Gradd 2, ond yn hepgor brawddeg gyfan, neu petai safon y cyfieithiad at ei gilydd yn gwbl foddhaol, ond bod un gwall 'angheuol' yn newid yr ystyr mor ddifrifol fel nad oedd modd dyfarnu llwyddiant.

## 5.5 Adroddiad unigol

Gall unrhyw ymgeisydd, p'un a yw wedi llwyddo neu fethu, ofyn am adroddiad unigol ar ei bapur arholiad. Gweler pwynt 9.6 isod.

## 5.6 Gwobrau'r Gymdeithas

Unwaith y flwyddyn bydd y Gymdeithas yn dyfarnu dwy wobr i'r ymgeiswyr mwyaf addawol yn yr arholiadau am Aelodaeth Sylfaenol, os bernir bod teilyngdod.

Cyflwynir **Gwobr Goffa Wil Petherbridge** i'r ymgeisydd/ymgeiswyr mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, os bernir bod teilyngdod. Roedd Wil Petherbridge yn Ysgrifennydd y Gymdeithas rhwng 1985 a 1997. Yn arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru, mae'r Wobr Goffa'n arwydd o werthfawrogiad y Gymdeithas o'r holl waith a wnaeth Wil, yn enwedig wrth sefydlu sylfeini'r drefn arholi.

Cyflwynir **Gwobr Berwyn** i'r ymgeisydd/ymgeiswyr mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Saesneg, os bernir bod teilyngdod. Mae'r wobr hon yn anrhydeddu Berwyn Prys Jones a fu'n Gadeirydd y Gymdeithas am fwy na chwarter canrif ac yn arweinydd ysbrydoledig ar fyd cyfieithu yng Nghymru.

## 6. Cofrestru a thalu

Sylwer, ni fyddwn yn cofrestru mwy na 30 ar gyfer pob papur ac felly y cyntaf i'r felin fydd hi wrth neilltuo llefydd. Os na fydd lle bydd enwau yn cael eu rhoi ar y rhestr wrth gefn rhag ofn y bydd rhywun yn tynnu'n ôl rhwng cofrestru a diwrnod yr arholiad.

### 6.1 Y ffurflen gofrestru

Rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r ffurflen gofrestru cyn y caiff sefyll arholiad. Rhaid anfon ffurflen gofrestru ar wahân ar gyfer pob unigolyn a fydd yn sefyll arholiad. Mae'r ffurflen gofrestru'n ddogfen ar ei phen ei hun ac nid yw'n rhan o'r llawlyfr hwn.

Dylid e-bostio'r ffurflen gofrestru i **swyddfa@cyfieithwyr.cymru** ar ffurf 'Word' yn unig, ac nid ar ffurf 'pdf' nac unrhyw fformat arall.

Gofynnir i ymgeisydd nodi yn ei ffurflen gofrestru:

- yn nhrefn blaenoriaeth, pa ganolfan arholi (Aberystwyth, Caerdydd ynteu Glynllifon) y mae'n dymuno sefyll arholiad ynddi. Gwnaiff y Gymdeithas ei gorau i ymateb i ddewis cynta'r ymgeisydd, ond ni all warantu hynny.

- unrhyw amgylchiadau a/neu anghenion arbennig sydd ganddo. Ystyrir pob achos yn unigol ac fe wnaiff y Gymdeithas ei gorau glas i ymateb i bob sefyllfa.

### 6.2 Dyddiad cau cofrestru

Y dyddiad cau i gofrestru ar gyfer yr arholiadau hyn fydd dydd Gwener, 12 Medi 2025, am 2:00pm. Ni dderbynnir ceisiadau wedi 2:00pm ar y diwrnod cau, a hynny er tegwch â phawb.

### 6.3 Y taliadau am sefyll arholiad

I aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau a gaiff eu cydnabod, a'r Darpar Aelodau:

£90.00 am sefyll un papur arholiad
£150.00 am sefyll y 2 bapur ar yr un diwrnod.

I bawb arall:

£105.00 am sefyll un papur
£180.00 am sefyll y 2 bapur ar yr un diwrnod.

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

Unigolion: rhaid i chi dalu wrth gofrestru. Ni fyddwn yn cofrestru neb ar gyfer yr arholiadau oni chawn y tâl ar yr un pryd â'r ffurflen gofrestru a chyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

Sefydliadau cyhoeddus: ni ddylai ymgeisydd sy'n gweithio mewn sefydliad cyhoeddus ac y bydd ei gyflogwr yn talu am yr arholiad ddisgwyl cael rhif archeb swyddogol cyn anfon y ffurflen gofrestru. Gall rhif yr archeb ddilyn. Cofrestru sydd bwysicaf.

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr CCC yn ymwybodol bod caledi ariannol ar gynnydd, ac nid yw'n dymuno gweld darpar-gyfieithwyr addawol yn methu sefyll yr arholiad am resymau ariannol. Os ydych yn barod i sefyll yr arholiad, ond yn methu fforddio'r ffi, cysylltwch â **swyddfa@cyfieithwyr.cymru** i drafod y sefyllfa. Bydd pob ymholiad yn derbyn sylw unigol, ac yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol.

## 6.4 Sut i dalu am sefyll arholiad

Mae dwy ffordd o dalu am sefyll arholiad:

- **Taliad electronig**

Os byddwch chi'n gwneud taliad electronig, rhaid i chi wneud hwnnw'r un pryd ag y byddwch chi'n anfon y ffurflen gofrestru, gan roi 'Arholiad' yn gyfeirnod eich taliad. Y wybodaeth angenrheidiol wrth wneud taliad electronig yw:

**Cod didoli:** 40–09–03 (HSBC, Bangor)
**Rhif y cyfrif:** 31670557
**Enw'r Cyfrif:** Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf

- **Archeb swyddogol**

Yn achos unigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus sydd am i ni anfonebu'r cyflogwr, llenwch y ffurflen gofrestru ac e-bostiwch hi fel atodiad, gan nodi rhif yr archeb a'r cyfeiriad ar gyfer anfonebu os yw'r wybodaeth hon gennych. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael wrth anfon y ffurflen gofrestru, dylid anfon y wybodaeth hon trwy e-bost cyn gynted ag y bydd ar gael.

**Sylwer,** ni ellir talu â cherdyn credyd nac â cherdyn debyd.

## 6.5 Cydnabod derbyn y ffurflen gofrestru

Bydd y Gymdeithas yn cydnabod derbyn pob ffurflen gofrestru, yn ogystal â'r taliad/rhif archeb, drwy e-bost o fewn tri diwrnod gwaith iddi ein cyrraedd ni.

Bydd y Gymdeithas yn gohebu â phob ymgeisydd yn unigol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir yn y ffurflen gofrestru ni waeth pwy sydd yn talu iddo sefyll yr arholiad.

**Sylwer,** cyfrifoldeb pob ymgeisydd yw gwirio fod y Gymdeithas wedi derbyn ei ffurflen gofrestru erbyn 2:00pm y dyddiad cau.

## 6.6 Os bydd yn rhaid canslo neu ohirio'r arholiadau

Os bydd y Gymdeithas yn gorfod canslo'r arholiadau, rhoddir dewis i'r ymgeisydd gael ad-daliad llawn neu gredyd.

## 6.7 Os bydd ymgeisydd yn tynnu'n ôl o'r arholiadau

Os bydd ymgeisydd yn tynnu'n ôl, rhaid iddo anfon e-bost at **swyddfa@cyfieithwyr.cymru** yn rhoi gwybod i ni.

Y telerau canslo fydd:

- 7 diwrnod neu ragor cyn diwrnod yr arholiadau, ad-delir 75% o'r ffi
- 3–6 diwrnod cyn diwrnod yr arholiadau, ad-delir 50% o'r ffi
- llai na thridiau cyn diwrnod yr arholiadau, dim ad-daliad

## 6.8 Y pecyn gwybodaeth am yr arholiadau

Anfonir y pecyn gwybodaeth am yr arholiadau at bob ymgeisydd ddim hwyrach nag wythnos cyn diwrnod yr arholiadau. Caiff hwn ei e-bostio i'r cyfeiriad e-bost a nodwyd gan yr ymgeisydd yn ei ffurflen gofrestru.

Dylai ymgeisydd sydd heb gael ei becyn o fewn 5 diwrnod i ddiwrnod ei arholiad gysylltu â'r swyddfa yn syth.

Cyn diwrnod yr arholiad, dylid darllen pennod 8 isod, , **Y trefniadau ar ddiwrnod yr arholiad**, er mwyn ymgyfarwyddo â threfniadau diwrnod yr arholiad.

## 7. Cynghorion i ymgeiswyr

Un o brif nodau Bwrdd Arholi Testunau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw sicrhau chwarae teg i bawb sy'n sefyll arholiadau'r Gymdeithas. Mae'r drefn arholi bresennol wedi'i strwythuro er mwyn sicrhau bod pob papur a gyflwynir yn cael ei farcio'n annibynnol gan ddau farciwr sy'n gyfieithwyr profiadol ac yn aelodau o'r Gofrestr Marcwyr. Mae'r darnau a gyfieithwyd yn cael eu dadansoddi'n fanwl yn unol â'r canllawiau marcio perthnasol.

Wedi dweud hynny, mae rhai llithriadau annodweddiadol yn gallu digwydd o dan amodau arholiad, ac o ganlyniad, mae cryn nifer o bapurau yn syrthio i'r categori 'ffiniol' ym mhob rownd o arholiadau. Mae pob papur o blith y rhain yn cael eu trafod ymhellach dan arweiniad y Dirprwy Arholwr perthnasol ac wedi cryn drafodaeth, penderfynir a yw'r ymgeiswyr dan sylw yn llwyddo neu beidio.

### Hen bapurau ac Adroddiadau Cyffredinol

Un o'r adnoddau pwysicaf a mwyaf gwerthfawr i unrhyw un sy'n ystyried sefyll yr arholiadau yw'r dudalen ar wefan y Gymdeithas sy'n cynnwys copïau o hen bapurau arholiadau ar y lefel Gyflawn ac ar y lefel Sylfaenol, ynghyd â'r Adroddiadau Cyffredinol, www.cyfieithwyr.cymru/cy/ymaelodi/hen-bapurau-arholiad

Wrth baratoi i sefyll arholiadau'r Gymdeithas, fe anogwn ymgeiswyr i ddarllen ac astudio'r rhain er mwyn ymgyfarwyddo â'r safon sy'n ddisgwyliedig, yn ogystal â chael cynghorion buddiol ar sail yr hyn a welwyd wrth farcio sgriptiau arholiad yn y gorffennol.

### Yr Ymarferion Cyfieithu ar y lefel Sylfaenol

Mae gwefan y Gymdeithas yn cynnwys nifer o Ymarferion Cyfieithu ar y lefel Sylfaenol - i'r Gymraeg, https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/datblygu-proffesiynol/ymarferion - ac i'r Saesneg, https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/datblygu-proffesiynol/ymarferion-2

Mae'r Ymarferion Cyfieithu hyn yn ddarnau a osodwyd mewn arholiadau ac e-weithdai cyfieithu yn y gorffennol, a'u bwriad yw rhoi cyfle i ymgeiswyr roi cynnig ar ymarfer eu cyfieithu yn eu hamser eu hunain. Ar ôl llunio'r cyfieithiad, gall rhywun droi at y sylwadau a'r cynghorion a luniwyd gan yr arholwyr a'r marcwyr ar sail y cyfieithu llwyddiannus ac aflwyddiannus a welwyd wrth farcio'r darnau.

### Hanfodion cyfieithu da

I lwyddo yn yr arholiadau rydym yn disgwyl y bydd y darnau'n dangos bod yr ymgeisydd yn gyfarwydd â hanfodion cyfieithu da, ac felly wedi:

- creu cyfieithiad sy'n cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, ond nid yn slafaidd
- sicrhau bod yr arddull yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged
- defnyddio iaith gywir a'r cywair priodol
- gwneud yn siŵr bod y mynegiant yn argyhoeddi yn yr iaith darged
- peri i'r darllenydd dybio mai dyna iaith wreiddiol llunio'r testun

## 8. Y trefniadau ar ddiwrnod yr arholiad

### 8.1 Cyflwyniad

**8.1.1** Cynhelir yr arholiad o dan oruchwyliaeth y Gymdeithas ac o dan amodau arholiad.

**8.1.2** Mae'r tair canolfan arholi wedi eu lleoli mewn sefydliadau addysgol gwahanol. Mae gan bob un o'r rhain ei reolau a'i systemau cyfrifiadurol ei hun.

Ni all y Gymdeithas fod yn gyfrifol am unrhyw ddiffyg ar ran y canolfannau a ddefnyddir.

**8.1.3** Bydd aelod o staff y Gymdeithas, neu gynrychiolydd ar ei rhan, yn goruchwylio'r arholiad. Y Goruchwyliwr fydd yn penderfynu ar y camau y dylid eu cymryd os bydd unrhyw beth yn tarfu ar yr arholiad. Bydd y penderfyniad hwnnw'n derfynol. Hysbysir y Rheolwr Gweinyddol o'r penderfyniad.

**8.1.4** Bydd yr arholiad yn dechrau'n brydlon ar yr amser penodedig oni chyfyd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Gymdeithas.

Agorir ystafell yr arholiad 30 munud cyn amser dechrau'r arholiad. Ni chaiff ymgeiswyr fynediad i ystafell yr arholiad cyn hynny.

Rhaid i bob ymgeisydd fod wrth ei ddesg ddim hwyrach na 15 munud cyn amser dechrau'r arholiad ac mewn pryd i glywed y cyhoeddiadau.

**8.1.5** Os bydd ymgeisydd yn credu y bydd yn hwyr yn cyrraedd y ganolfan arholi, dylai ffonio'r rhif ffôn a roddwyd yn y pecyn arholiad cyn gynted ag y gall. Y Goruchwyliwr fydd yn penderfynu a fydd yr ymgeisydd yn cael amser ychwanegol ai peidio.

**8.1.6** Os bydd yn rhaid rhoi'r gorau i'r arholiad, trefnir cynnal arholiad arall cyn gynted â phosibl. Ni chodir tâl pellach ar yr ymgeiswyr.

### 8.2 Cyfrifiaduron, gliniaduron, meddalwedd a chyswllt â'r we

**8.2.1** Rhaid cyflwyno'r gwaith terfynol wedi'i deipio. Disgwylir i ymgeiswyr fod â sgiliau da o ran technoleg gwybodaeth.

**8.2.2** Darperir cyfrifiadur ar gyfer pob ymgeisydd, neu, fe all ymgeisydd ddefnyddio'i liniadur ei hun.

**8.2.3** **Defnyddio cyfrifiadur y ganolfan arholi**
Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio cyfrifiadur y ganolfan arholi ar ei fenter ei hun. Er y gwnaiff y Gymdeithas ei gorau glas i sicrhau bod y rhain yn gweithio'n iawn, ni all gymryd unrhyw gyfrifoldeb dros ddiffygion offer cyfrifiadurol unrhyw ganolfan arholi y mae hi wedi'i llogi. Noder hefyd fod systemau cyfrifiadurol gwahanol ym mhob canolfan. Os ceir unrhyw drafferthion technegol yn ystod yr arholiad, rhoir gwybod i'r

marcwyr amdanynt. Os na fydd hi'n bosibl i ymgeisydd gwblhau'r arholiad oherwydd trafferthion technegol, cynigir ad-daliad neu gredyd.

Er y gwnaiff y Gymdeithas ei gorau glas i sicrhau y bydd gwirydd sillafu, e.e. Cysgliad, Cysill, CysGair neu wirydd sillafu Microsoft wedi'i osod ar gyfrifiaduron y ganolfan arholi, ni all fod yn atebol os nad yw'r adnoddau hyn ar gael ar ddiwrnod yr arholiad. Os na fyddant, rhoir gwybod i'r marcwyr.

Ni all y Gymdeithas warantu y bydd gosodiadau to bach yr un o'r canolfannau arholi yr un fath â'r rhai ar gyfrifiadur yr ymgeisydd. Bydd taflen wybodaeth ar sut i osod acenion yn rhan o'r pecyn arholiad.

**8.2.4 Defnyddio gliniadur personol**

Caiff ymgeisydd ddefnyddio'i liniadur ei hun os yw wedi nodi hynny yn y ffurflen gofrestru. Os na fydd hi'n ymarferol bosibl i'r ymgeisydd ddefnyddio'i liniadur ei hun bydd y Rheolwr Gweinyddol yn ei hysbysu o hynny cyn gynted ag y gellir.

Ni chaniateir cysylltu gliniaduron personol â system gyfrifiadurol y ganolfan arholi.

Rhaid i ymgeisydd sy'n defnyddio'i liniadur ei hun allu agor y papur a fydd ar ffurf 'Microsoft Office Word, docx'. Yn yr un modd, rhaid i'r gwaith terfynol gael ei arbed ar ffurf y gellir ei agor yn 'Microsoft Office Word'.

Os bydd ymgeisydd sy'n gweithio i gwmni/sefydliad yn defnyddio ei liniadur gwaith dylai sicrhau bod systemau diogelwch technoleg gwybodaeth y cwmni/sefydliad yn caniatáu iddo allu defnyddio'r cof bach a ddarperir gan y Gymdeithas. Dylid rhoi gwybod i'r Rheolwr Gweinyddol o fewn pythefnos i ddiwrnod yr arholiad am unrhyw anhawsterau posibl a allai godi.

Gofynnir i ymgeisydd sy'n defnyddio'i liniadur ei hun sicrhau fod y sain wedi'i ddiffodd er tegwch ag ymgeiswyr eraill.

**8.2.5** Ni chaniateir i ymgeiswyr gysylltu â'r we na defnyddio e-bost yn yr arholiad.

Y rheswm pennaf dros hyn yw y byddai modd i ymgeiswyr gysylltu drwy e- bost â rhywun y tu allan a gofyn am gymorth. Gan mai gwaith yr ymgeisydd ei hun y dymuna'r Gymdeithas ei anfon at y marcwyr, y drefn decaf yw cyfyngu ar unrhyw gyfle i ymgeiswyr gysylltu â'r we, ac fe osodir y cyfyngiad hwn ar bob ymgeisydd er tegwch i bawb. Yn ogystal, ni all y Gymdeithas warantu cysylltiad â'r we ym mhob canolfan a ddefnyddir ganddi ar gyfer yr arholiad.

Felly, ni chaniateir defnyddio unrhyw eiriadur neu restr termau ar-lein, gan gynnwys *Geiriadur yr Academi* ar-lein, *GPC* ar-lein, 'termcymru', apiau, Porth Termau Cenedlaethol Cymru. Ni chaniateir defnyddio meddalwedd neu ategyn cyfieithu peirianyddol, nac unrhyw feddalwedd cof cyfieithu.

**8.2.6** Os gwnaiff ymgeisydd gysylltu â'r we, neu os tybia'r Goruchwyliwr ei fod yn ceisio gwneud hynny neu ei fod wedi gwneud hynny, caiff ei ddiarddel o'r arholiad.

**8.2.7** Ni chaniateir defnyddio ffôn symudol yn ystod yr arholiad. Rhaid i bob un ddiffodd ei ffôn symudol cyn dechrau'r arholiad. Os bydd ymgeisydd yn defnyddio ffôn symudol, neu os tybia'r Goruchwyliwr ei fod yn ceisio gwneud hynny neu ei fod wedi gwneud hynny, caiff ei ddiarddel o'r arholiad.

**8.2.8** Ni chaniateir llwytho unrhyw feddalwedd ar gyfrifiaduron na system gyfrifiadurol ganolog y ganolfan arholi.

## 8.3 Ni chaniateir argraffu

Ni chaniateir argraffu gwaith yn ystod yr arholiad. Yn rhannol, gan fod systemau argraffu pob canolfan yn wahanol ac ni ellir gwarantu y bydd ar gael i ddefnyddwyr allanol.

Darperir cof bach i bob ymgeisydd. Bydd gofyn i ymgeiswyr arbed eu gwaith arno yn ystod yr arholiad a chyflwyno'u gwaith terfynol arno.

## 8.4 Adnoddau y caniateir eu defnyddio

**8.4.1** Caiff ymgeiswyr ddod â geiriaduron, termiaduron, cyfeirlyfrau ac unrhyw gasgliadau geirfa, p'un a ydynt yn gyhoeddiadau printiedig neu'n feddalwedd gyfrifiadurol darllen-yn-unig, e.e. ar gof bach, gyda hwy i'w defnyddio yn yr arholiad.
**Sylwer:** ni chaniateir i ymgeiswyr rannu llyfrau nac unrhyw adnoddau eraill yn ystod yr arholiad.

**8.4.2** Ni ellir sicrhau y bydd daliwr copi, mat llygoden, pensil na beiro ar gael yn y ganolfan arholi. Caiff ymgeiswyr ddod â'r rhain gyda hwy i'w defnyddio yn yr arholiad.

**8.4.3** Awgrymir i ymgeiswyr sy'n arfer gweithio mewn distawrwydd i ddod â 'pensetiau canslo sain' er mwyn sicrhau nad yw sŵn pobl eraill yn tarfu arnyn nhw.

## 8.5 Trefn yr arholiad

**8.5.1** Neilltuir desg i bob ymgeisydd a bydd rhif arholiad yr ymgeisydd i'w weld yn glir ar y ddesg.

**8.5.2** Caiff ystafell yr arholiad ei hagor 30 munud cyn amser dechrau'r arholiad. Bydd y cyfnod hwn yn gyfle i'r ymgeisydd ymgynefino â'r cyfrifiadur a llenwi'r Ffurflen Arholiad.

**8.5.3** Rhaid i bob ymgeisydd fod wrth ei ddesg ddim hwyrach na 15 munud cyn amser dechrau'r arholiad ac mewn pryd i glywed y cyhoeddiadau.

**8.5.4** Dim cynt na 10 munud cyn dechrau'r arholiad bydd y Goruchwyliwr yn gwneud y cyhoeddiadau ynghylch yr arholiad, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ymarferol ynghylch lleoliadau'r tai bach a'r allanfeydd tân.

**8.5.5** Darperir y papur arholiad ar ffurf papur ac ar gof bach. Rhaid i ymgeiswyr gadw eu gwaith ar y cof bach hwnnw yn hytrach nag ar gyfrifiadur y ganolfan arholi.

**8.5.6** Rhaid i ymgeiswyr roi gwybod i'r Goruchwyliwr yn syth os cyfyd unrhyw broblem, yn dechnegol neu fel arall, yn ystod yr arholiad.

Bydd lle ar y Ffurflen Arholiad i'r ymgeisydd gofnodi unrhyw broblem a fydd wedi codi. Rhoddir gwybod i'r marcwyr amdanynt. Os na fydd ymgeisydd yn rhoi gwybod am unrhyw broblem unigol a gododd yn ystod yr arholiad ar y Ffurflen Arholiad, ni ellir gwarantu yr ystyrir hyn petai'n apelio.

Os caniateir amser ychwanegol i ymgeisydd ar ddiwedd yr arholiad oherwydd unrhyw broblem a gododd yna cyfrifoldeb yr ymgeisydd ei hun yw cadw cofnod o'r amser hwnnw pan fydd y Goruchwyliwr yn cyhoeddi diwedd yr arholiad i bawb arall.

**8.5.7** Neilltuir 5 munud cynta'r arholiad i ymgeiswyr ddarllen y papur. Ni chaiff ymgeiswyr ddechrau teipio'u cyfieithiad yn ystod y cyfnod hwn; mae'n gyfnod ar gyfer darllen yn unig. Caiff ymgeiswyr wneud nodiadau â llaw yn ystod y cyfnod hwn.

**8.5.8** Dylai ymgeisydd nodi ei rif arholiad, a'i rif arholiad yn unig, ar frig pob tudalen o'i sgript arholiad. Ni ddylai roi ei enw – caiff pob ymgeisydd ei arholi'n ddienw.

**8.5.9** Rhaid cyflwyno pob sgript arholiad ar ffurf gofod dwbl ac mewn teip Arial ffont 11. Darperir copi electronig o'r papur arholiad wedi'i fformadu'n barod. Gellir teipio dros y fersiwn hwnnw neu agor dogfen newydd.

Awgrymir fod ymgeiswyr yn defnyddio eu rhif arholiad wrth enwi'r ddogfen fydd yn cynnwys eu cyfieithiad terfynol.

**8.5.10** Argymhellir yn gryf fod ymgeiswyr yn arbed eu gwaith yn gyson yn ystod yr arholiad ar y cof bach a ddarperir, yn enwedig cyn defnyddio gwirydd sillafu. Ni all y Gymdeithas gymryd cyfrifoldeb am unrhyw waith a gollir gan ymgeiswyr.

**8.5.11** Caiff ymgeiswyr ychwanegu troednodiadau at eu gwaith, boed hynny i dynnu sylw at dermau y byddent fel arfer yn eu gwirio ar y we, neu i amlygu unrhyw elfen arall lle teimlir y byddai eglurhad ar y cyfieithiad a ddefnyddiwyd yn fuddiol. Yn naturiol, gan fod amser yn brin, disgwylir i unrhyw droednodiadau a ychwanegir fod yn gryno ac yn bwrpasol.

Wrth ychwanegu sylwadau, ni ddylai ymgeiswyr ddefnyddio'r rhaglen mewnosod sylwadau gan fod hyn yn achosi i'r copi terfynol gael ei argraffu mewn print mân.

**8.5.12** Anogir ymgeiswyr i gaboli eu gwaith cyn ei gyflwyno. Dylid darllen y gwaith yn ofalus a'i olygu'n fanwl o safbwynt ystyr, cywair, cystrawen a chywirdeb.

**8.5.13** Bydd y Goruchwyliwr yn cyhoeddi pan fydd 30 munud a 10 munud yn weddill o'r arholiad.

Ni chaniateir i unrhyw ymgeisydd adael yr ystafell yn ystod 10 munud olaf yr arholiad. Os bydd wedi gorffen cyn diwedd yr arholiad, gofynnir iddo fod yn ystyriol o'r ymgeiswyr eraill.

**8.5.14** Pan fydd y Goruchwyliwr yn cyhoeddi diwedd yr arholiad, rhaid i ymgeiswyr stopio teipio'n syth, ac arbed eu gwaith ar y cof bach*. Dylid rhoi'r cof bach yn y waled a'i roi i'r Goruchwyliwr ei gasglu.

* Y fersiwn hwn a gaiff ei argraffu gan y swyddfa a'i anfon at y marcwyr. Felly, dylai ymgeiswyr ddileu unrhyw gopïau drafft/arall o'u gwaith. Ni fydd y Gymdeithas yn derbyn cyfrifoldeb os anfonir y gwaith anghywir i'w farcio.

**8.5.15** Ceidw'r Gymdeithas yr hawl i ddefnyddio gwaith unrhyw ymgeisydd, yn ddienw, at ddibenion hyfforddi.

## 8.6 Diarddel ymgeisydd o'r arholiad

Gellir diarddel ymgeisydd o'r arholiad:

- os yw fwy na 15 munud yn hwyr yn cyrraedd heb reswm digonol
- os yw'n torri gair ag ymgeisydd arall
- os yw'n aflonyddu ar ymgeisydd arall
- os yw'n cysylltu â'r we neu'n e-bostio
- os yw'n defnyddio meddalwedd neu ategyn cyfieithu peirianyddol
- os yw'n defnyddio ffôn symudol

Nid ad-delir ffi arholi i ymgeisydd a gaiff ei ddiarddel.

Caniateir i ymgeisydd a gaiff ei ddiarddel wneud cais i sefyll arholiad eto yn y dyfodol. Rhaid iddo gofrestru o'r newydd a thalu'r ffi ymgeisio briodol.

Os caiff ymgeisydd ei ddiarddel am yr eildro, ystyrir ei gais i sefyll yr arholiad eto gan y Gymdeithas, ond efallai na chaiff ymgeisio eto am bum mlynedd.

# 9. Beth sy'n digwydd ar ôl yr arholiad

## 9.1 Sylwadau am yr arholiad

Os oes gan ymgeisydd sylwadau neu gŵyn am yr arholiadau rhwng dyddiad sefyll yr arholiad a chyhoeddi'r canlyniadau, fe ddylai anfon y rhain yn ysgrifenedig i sylw'r Rheolwr Gweinyddol yn unig, ac nid at neb arall.

Anfonir e-bost at ymgeiswyr ychydig ddyddiau wedi'r arholiad yn cynnig y cyfle iddynt wneud sylwadau cyffredinol am holl drefniadau'r arholiad.

Ni fydd hwn yn gyfle i ymgeisydd gyflwyno sylwadau am unrhyw broblemau unigol a gododd yn ystod yr arholiad. Dylid gwneud hynny ar y Ffurflen Arholiad a chyn gadael y ganolfan arholi.

Bydd yr e-bost hwn yn caniatáu i ymgeisydd roi gwybod os hoffai gopi o'i sgript arholiad.

## 9.2 Marcio'r sgriptiau

Mae'r drefn arholi'n un gyfrinachol. Cynhelir unrhyw drafodaeth ar ymgeisydd unigol – p'un ai yw rhwng marcwyr â'i gilydd neu yn y Bwrdd Arholi Testunau (BAT) – yn ôl y rhif arholiad a roddwyd i bob ymgeisydd.

Caiff pob sgript ei farcio'n ddienw gan ddau farciwr sy'n aelodau o Gofrestr Marcwyr Arholiadau'r Gymdeithas, mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arholwr perthnasol, ac yn unol â chanllawiau marcio'r Gymdeithas.

## 9.3 Cyhoeddi'r canlyniadau

Caiff pob ymgeisydd wybod ei ddyfarniad yn ysgrifenedig yn unig tua 8 wythnos wedi diwrnod yr arholiad. Rhoddir gwybodaeth fanylach ynghylch y dyddiad yn y neges a gaiff ei anfon wedi'r ar arholiad (gweler 9.1 uchod). Ni fydd modd i'r un ymgeisydd gael ei ganlyniad cyn diwrnod y cyhoeddiad swyddogol.

Bydd y Gymdeithas yn gohebu â phob ymgeisydd gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir yn y ffurflen gofrestru, neu yn y Ffurflen Arholiad, os newidir y wybodaeth wreiddiol.

Bydd y pecyn dyfarniad yn nodi:

- yn achos yr arholiadau ar y lefel Gyflawn, a yw'r ymgeisydd wedi llwyddo neu fethu, ynghyd â sylw cryno am y gwaith.

- yn achos yr arholiadau ar y lefel Sylfaenol, y graddau a roddwyd am y ddau ddarn.

Anfonir yr Adroddiad(au) Cyffredinol ar yr arholiadau at bob ymgeisydd wythnos wedi cyhoeddi'r canlyniadau.

## 9.4 Cael adroddiad unigol ar bapur arholiad

Gall unrhyw ymgeisydd, p'un ai yw wedi llwyddo neu fethu, ofyn am adroddiad unigol

ar ei bapur arholiad.

Mae'r adroddiad unigol ar waith ymgeisydd yn elfen bwysig o'r drefn arholi, a bydd yn rhoi gwell syniad o pham y daethpwyd at y dyfarniad a roddwyd iddo. Bydd yr adroddiad unigol yn amlygu'r cyfieithu llwyddiannus ac aflwyddiannus a welwyd yng yng ngwaith yr ymgeisydd. Y gobaith yw y bydd y sylwadau o gymorth iddo wella'i hun fel cyfieithydd ac i'w ddatblygiad proffesiynol.

I gael adroddiad unigol, rhaid anfon y cais drwy e-bost ac yn unol â'r amserlen a nodir yn y pecyn dyfarniad.

Gweler hefyd pwynt 9.6 isod.

### 9.4.1 Taliadau am adroddiad unigol

I aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau a gaiff eu cydnabod, a'r Darpar Aelodau:

**£40.00** am adroddiad unigol ar un papur arholiad
**£80.00** am adroddiadau ar ddau bapur arholiad.

I ymgeiswyr llwyddiannus:

**£40.00** am adroddiad unigol ar un papur arholiad
**£80.00** am adroddiadau ar ddau bapur arholiad.

I bawb arall:

**£45.00** am adroddiad unigol ar un papur arholiad
**£90.00** am adroddiadau ar ddau bapur arholiad.

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

Mae'r wybodaeth ynghylch sut i dalu yn 6.4 uchod.

## 9.5 Apelio

Os bydd ymgeisydd yn penderfynu apelio, argymhellwn yn gryf y dylai wneud cais am adroddiad unigol ar ei waith cyn penderfynu a yw am apelio oherwydd y byddai hynny'n rhoi darlun cliriach o'r gwaith yn ei gyfanrwydd. Cofier, dim ond hyn a hyn o fân lithriadau y gellir eu caniatáu, hyd yn oed o dan amodau arholiad.

Wrth apelio yn erbyn dyfarniad dylid cofio hefyd bod y gwaith yn cael ei farcio o'r newydd. Felly, wrth ystyried apêl gellid dod i'r casgliad bod y dyfarniad gwreiddiol yn rhy hael neu'n rhy llym.

Er gwybodaeth, mae rhai apeliadau wedi llwyddo ac eraill wedi methu.

### 9.5.1 Cyflwyno apêl

Gall ymgeisydd gyflwyno apêl yn erbyn dyfarniad y Bwrdd Arholi Testunau (BAT) drwy roi gwybod i'r Rheolwr Gweinyddol o'i fwriad i wneud hynny yn unol â'r amserlen a nodir yn y pecyn dyfarniad. Wrth wneud hynny, bydd cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno ei resymau dros apelio yn erbyn y dyfarniad os dymuna, ond nid yw'n ofynnol.

Caiff y dyddiad cau i gyflwyno apêl ei nodi yn y pecyn dyfarniad.

Gweler hefyd pwynt 9.6 isod.

### 9.5.2 Taliadau ar gyfer cyflwyno apêl

I aelodau'r Gymdeithas yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau a gaiff eu cydnabod, a'r Darpar Aelodau:

**£60.00** am un papur arholiad.

I bawb arall:

**£65.00** am un papur arholiad.

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

Mae'r wybodaeth ynghylch sut i dalu yn 6.4 uchod.

Ad-delir y ffi os caniateir yr apêl.

### 9.5.3 Ymdrin ag apêl

Caiff apêl ei ystyried gan y Prif Arholwr. Bydd ei ddyfarniad yn derfynol. Fe gymer y broses o ystyried apêl hyd at fis.

Hysbysir yr ymgeisydd o ganlyniad yr apêl gan y Rheolwr Gweinyddol.

## 9.6 Canllawiau i ymgeiswyr ynghylch cael adroddiad unigol ac apelio

Un o brif nodau Bwrdd Arholi Testunau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw sicrhau chwarae teg i bawb sy'n sefyll arholiadau'r Gymdeithas. Mae'r drefn arholi bresennol wedi'i strwythuro er mwyn sicrhau bod pob papur a gyflwynir yn cael ei farcio'n annibynnol gan ddau farciwr sy'n gyfieithwyr profiadol ac yn aelodau o'r Gofrestr Marcwyr. Mae'r darnau a gyfieithwyd yn cael eu dadansoddi'n fanwl yn unol â'r canllawiau marcio perthnasol.

Wedi dweud hynny, mae rhai llithriadau annodweddiadol yn gallu digwydd o dan amodau arholiad, ac o ganlyniad, mae cryn nifer o bapurau yn syrthio i'r categori 'ffiniol' ym mhob rownd o arholiadau. Mae pob papur o blith y rhain yn cael eu cyfeirio gan y marcwyr at y Dirprwy Arholwr perthnasol. Mae'r papurau hyn yn destun sylw manwl ganddynt ac wedi cryn drafodaeth, penderfynir a yw'r ymgeiswyr dan sylw yn llwyddo neu beidio.

### Adroddiad ar yr arholiad Cyflawn

Mewn adroddiad ar yr arholiad Cyflawn, bydd y sylwadau'n ymhelaethu ar y sylw cryno a roddwyd yn y llythyr dyfarniad, cyn symud ymlaen i drafod y darnau yn nhermau cyfieithu llwyddiannus ac aflwyddiannus. Amlygir unrhyw bwyntiau y teimlir eu bod yn peri trafferth.

### Adroddiad ar yr arholiad Sylfaenol

Os bydd ymgeisydd yn yr arholiad Sylfaenol yn gwneud cais am adroddiad unigol, bydd yr adroddiad hwnnw yn dadansoddi'r gwaith a gyflwynwyd yn yr arholiad, ac yn egluro sut penderfynwyd ar y graddau a roddwyd i'r ddau ddarn. Gan fod addewid yn bwysig ar y lefel hon, gall y marcwyr ddefnyddio'u disgresiwn i roi gradd llwyddo i ymgeisydd er gwaethaf rhai brychau, os yw'r gwaith yn ei grynswth yn argyhoeddi, a bydd adroddiad yn canolbwyntio ar bob agwedd o'r gwaith, er mwyn amlygu unrhyw wallau y mae angen rhoi sylw iddynt, a chyflwyno sylwadau adeiladol i'r ymgeisydd a fydd yn ei helpu i ddatblygu ei sgiliau cyfieithu ymhellach.

## 9.7 Nodyn i ymgeiswyr aflwyddiannus

Nid oes terfyn ar faint o weithiau y caiff ymgeiswyr sefyll yr arholiadau. Ond hoffem awgrymu'n garedig y dylai ymgeiswyr a fu'n aflwyddiannus sawl tro ymgynghori ag un o Aelodau Cyflawn y Gymdeithas neu ddod i gysylltiad â'r Prif Arholwr, trwy'r swyddfa, i gael cyngor ynghylch hyfforddiant a allai fod o gymorth.

## 10. Aelodaeth o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru

### Buddion aelodaeth

Cynigir nifer o fuddion a gwasanaethau i aelodau'r Gymdeithas, yn eu plith:

- Tystysgrif Aelodaeth
- Llawlyfr Aelodaeth
- Enw a gwybodaeth ar wefan y Gymdeithas: cofnod aelodaeth a phroffil
- Bwletin newyddion misol ynghyd â bwletin yn nodi swyddi a thendrau sydd ar gael
- Prisiau arbennig ar gyfer gweithdai a digwyddiadau'r Gymdeithas
- Yr hawl i Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP ddefnyddio logo arbennig

### Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP)

Anogir holl aelodau'r Gymdeithas i roi sylw ac amser i'w datblygiad proffesiynol. Cynigir arweiniad a chyfarwyddyd yng nghynllun DPP y Gymdeithas, 'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision', y ceir copi ohono ar wefan y Gymdeithas, https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/datblygu-proffesiynol/cynllun-datblygu-proffesiynol

### Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth mae holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod bod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol, y ceir copi ohono ar wefan y Gymdeithas, https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd/ymddygiad-proffesiynol

### Y tâl aelodaeth

Mae'r tâl aelodaeth blynyddol yn **£150.00** i bob aelod, ac eithrio Aelodau Sylfaenol yn nhair blynedd cynta'u haelodaeth a fydd yn talu **£140.00.**

Bydd aelodau newydd a fydd yn ymuno â'r Gymdeithas am y tro cyntaf yn talu tâl aelodaeth arbennig yn y flwyddyn y maent yn llwyddo yn yr arholiadau, y tâl hwnnw'n dibynnu ar pryd y gwnaethant lwyddo yn yr arholiadau.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Yn ystod Ebrill a Mai bob blwyddyn gweithredir trefn ar gyfer atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu'u tâl aelodaeth. O ganlyniad, dim ond enwau aelodau sydd wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn sydd ar wefan y Gymdeithas.